Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Cyfeirnod: AC/192/caf
Dyddiad cyhoeddi: 5 Mai 2020

Annwyl Llŷr

Treuliau Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Ers i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ddod i rym yn llawn yn 2014, bu'r treuliau a achosir gan Gadeirydd y Bwrdd ac ar ei ran yn cael eu talu yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Bwrdd, gan gyd-fynd â'r telerau penodi a bennwyd gan y Pwyllgor Cyllid. Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi bod yn gweinyddu'r taliadau hyn drwy ein system dreuliau. Rai misoedd yn ôl, ymgysylltodd fy staff cyllid â staff cyllid Comisiwn y Cynulliad i newid y broses weinyddol hon o dalu, oherwydd newidiadau yn rheolau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, nodwyd mater mewn perthynas â chyllido treuliau'r Cadeirydd, y mae ein Cyfarwyddwr Cyllid yn ei egluro yn y nodyn atodedig.

Gallaf sicrhau'r Pwyllgor ein bod wedi cytuno ar ateb dros dro i'r mater gyda staff y Comisiwn, a bod ateb parhaol i gael ei roi yn ei le pan gaiff y Cadeirydd nesaf ei benodi. Bydd ein Cyfarwyddwr Cyllid yn parhau i gysylltu â Chlerc y Pwyllgor a thîm cyllid y Comisiwn wrth weithio drwy fanylion hyn.

Yn gywir

ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Nodyn Esboniadol a baratowyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid – treuliau Cadeirydd y Bwrdd

Yn anffodus, mae’r trefniadau a’r prosesau ar gyfer talu treuliau Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru braidd yn gymhleth oherwydd y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol (Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) (Deddf 2013) a'r ffordd y mae’n rhyngweithio â rheolau treth. Er ei bod yn rhesymol meddwl mai mater syml a bychan ddylai hwn fod, nid felly y mae hi, gwaetha’r modd. Mae'r nodyn hwn yn esbonio problem a ddaeth i'r amlwg yn ystod 2019-20 ynglŷn ag ariannu costau teithio (nid cyflog) y Cadeirydd.

Y Pwyllgor Cyllid sy’n pennu telerau penodi'r Cadeirydd, gan gynnwys tâl. Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Prif Weinidog ynghylch y trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth i’r Cadeirydd cyn y gellir gwneud y trefniadau hynny. Mae'r telerau presennol yn datgan y caiff treuliau yr eir iddynt eu had-dalu yn unol â'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth a fabwysiadwyd gan y Bwrdd [Swyddfa Archwilio Cymru]. Bu Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn y gallai dalu treuliau o'r fath o dan ei phwerau cyffredinol i wneud unrhyw beth, y bwriedir iddo hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu sy'n gysylltiedig â hynny neu sy'n gydnaws â hynny (adran 14 o Ddeddf 2013).

Ers i'r Bwrdd gael ei sefydlu’n llawn a chychwyn ei swyddogaethau cyllid ar 1 Ebrill 2014, bu treuliau yr aed iddynt gan y Cadeirydd ac ar ei ran (yn ogystal ag aelodau eraill o'r Bwrdd) yn rhan o Amcangyfrif a Chyfrifon cyhoeddedig Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod bob amser wedi ariannu treuliau'r Cadeirydd (a'i atebolrwydd treth) drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru (cyllideb gyflenwi) o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon bob amser wedi darparu datgeliad llawn o hyn (tudalen 73, 2018-19).

Y llynedd, fe wnaethom ymgysylltu â staff cyllid Comisiwn y Cynulliad er mwyn diwygio'r prosesau talu gweinyddol ar gyfer y Cadeirydd oherwydd newidiadau yn rheolau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi. O Ebrill 2019, nid oedd CThEM yn caniatáu mwyach i'r atebolrwydd treth ar dreuliau'r Cadeirydd gael ei dalu drwy gytundeb arbennig am dreuliau o'r fath (fel oedd y dull arferol ar draws cyrff cyhoeddus ar gyfer penodiadau anweithredol) ac yn lle hynny roedd yn ofynnol i'r dreth gael ei hadennill yn uniongyrchol drwy'r gyflogres. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gweinyddu cyflog y Cadeirydd drwy'r gyflogres, y Comisiwn ei hun sy’n gwneud hynny.

Gan mai’r Comisiwn sy’n prosesu cyflog y Cadeirydd, fe wnaethom gytuno â staff cyllid y Comisiwn y byddent yn cael eu hysbysu am fanylion y treuliau a dalwyd i'r Cadeirydd gan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl cyfrif yn briodol am y dreth sy'n ddyledus i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi.

Wrth ystyried y camau trafodaethol angenrheidiol ar gyfer y newid hwn yn y broses, gwnaethom gydnabod mewn trafodaethau â staff y Comisiwn fod Deddf 2013 (paragraff 7 o Atodlen 1) yn nodi bod “cyflog, lwfansau, rhoddion ariannol, a buddion eraill sy'n ymwneud â threuliau yr eir iddynt yn briodol ac o anghenraid” i

gael “eu codi ar, a’u talu o” Gronfa Gyfunol Cymru. Yn ein barn ni, er nad yw paragraff 7 yn gwbl glir (er enghraifft, nid yw ad-dalu treuliau busnes fel arfer yn lwfans nac yn fantais), ymddengys y byddai'n briodol codi costau'r Cadeirydd yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy Amcangyfrif a Chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru.

Fel y crybwyllwyd, roedd y treuliau wedi bod yn dâl anuniongyrchol drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ers 1 Ebrill 2014. Mae'n bwysig pwysleisio nad oes unrhyw broblem gyda chywirdeb y symiau a dalwyd, dim ond y cyfrif am y treuliau fel tâl uniongyrchol yn hytrach na thâl anuniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Pan wnaethom nodi'r broblem yn 2019-20, roeddem o'r farn y byddai'n iawn codi'r treuliau yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru o 2019-20 ymlaen, yn hytrach na pharhau â’r arfer blaenorol. Gwerth y treuliau yn 2019-20 oedd tua £5,000. Nid oes angen unrhyw gywiriadau addasu mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol gan nad oes unrhyw gamddatganiad o bwys mewn unrhyw gyfrifon. Rydym wedi ymgysylltu â'n harchwilwyr allanol ein hunain ar y mater hwn, a gyda fy nghydweithwyr sef y Cyfarwyddwyr Archwilio sy’n arwain archwiliadau Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer 2019-20, daethom i gytundeb â staff cyllid y Comisiwn lle mae'r Comisiwn wedi talu i’r Cadeirydd am yr holl dreuliau yr aeth iddynt yn ystod y flwyddyn (ac a dalwyd eisoes gan Swyddfa Archwilio Cymru) ac wedi codi'r swm hwnnw yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adennill yr un swm oddi wrth y Cadeirydd fel na fydd y costau hyn yn dâl yn erbyn Amcangyfrif cyflenwi Swyddfa Archwilio Cymru yn 2019-20. Y gost net yw £sero, gyda'r trafodiad yn symud y gost i godi tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thâl anuniongyrchol drwy Amcangyfrif cyflenwi Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y cyflenwad dros ben yn ein Hamcangyfrif (sy'n deillio o adennill y costau hyn yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na'u bod yn cael eu talu o'r cyflenwad) yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru fel rhan o'n halldro diwedd blwyddyn. Mae hyn yn ymdrin â'r mater ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, 2020-21, gyda staff y Comisiwn roeddem wedi bwriadu trosglwyddo'r Cadeirydd i gyflogres Swyddfa Archwilio Cymru, fel y gallai Swyddfa Archwilio Cymru wneud yr holl daliadau cyflog a threuliau drwy'r gyflogres ac adennill yr holl gostau fel tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru. Byddai hyn wedi lleihau'r fiwrocratiaeth a'r gwendid rheoli sy'n gysylltiedig â sefydlu proses wahanol i'r Cadeirydd hawlio treuliau drwy'r Comisiwn.

Fodd bynnag, wrth drafod y dull hwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, er eu bod yn gefnogol i'r newid gweinyddol er mwyn symleiddio'r broses, daeth eu cyngor cyfreithiol ar gymhwyso darpariaethau Deddf 2013, yn ymwneud â chydnabyddiaeth y Cadeirydd, i'r casgliad y byddai angen ymgynghori â'r Prif Weinidog ar y newid. Mae gan y tair plaid ddehongliadau gwahanol o'r sefyllfa gyfreithiol, ac nid wyf yn rhannu manylion hynny yn y nodyn hwn. Os canfyddir

bod angen ymgynghori, ymddengys y byddai'n briodol gwneud hynny yn gysylltiedig â gwaith y Pwyllgor yn recriwtio/penodi Cadeirydd newydd i’r Bwrdd ymhen ychydig fisoedd ac fel rhan o'r gofynion ymgynghori a nodir yn Neddf 2013. Er mai mater i'r Pwyllgor benderfynu arno yw hynny.

Yn y cyfamser, bydd y trefniadau dros dro yr ydym wedi cytuno arnynt gyda staff y Comisiwn, i sicrhau bod y treuliau'n cael eu gweinyddu drwy godi tâl yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, yn parhau. Pan benodir Cadeirydd newydd y Bwrdd, rydym yn awyddus i roi'r broses weinyddol newydd ar gyfer taliadau ar waith.

Ar gyfer 2020-21 gellir adlewyrchu'r gostyngiad bychan yn y cyflenwad o fewn Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru (£5,000) mewn Amcangyfrif Atodol (i leihau'r gyllideb) i'r Pwyllgor ei ystyried yn ddiweddarach eleni, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd; byddaf yn argymell ei bod yn iawn ac yn briodol gwneud hynny.

Er gwybodaeth, rydym hefyd wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer treuliau'r Archwilydd Cyffredinol, fel yr amlinellwyd yn ein llythyr dyddiedig 7 Chwefror 2020 at y Pwyllgor. Nid oes unrhyw ganlyniadau trethiant yn gysylltiedig â threuliau'r Archwilydd Cyffredinol ac felly nid oes angen i'w dreuliau ef gael eu gweinyddu drwy'r gyflogres.

Rwyf wedi ymgysylltu â chydweithwyr cyllid yn y Comisiwn a Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r nodyn hwn.

Steven O’ Donoghue
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol

28 April 2020